CYLCHLYTHYR TENANTIAID

Cyngor Sir Penfro

Neges Gan y Cyfarwyddwr



Jonathan Griffiths

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i fynegi fy niolch i chi i gyd fel tenantiaid Cyngor Sir Penfro am gadw at argymhellion y llywodraeth i aros gartref er mwyn i ni leihau lledaeniad y Coronofeirws. Mae wedi cael effaith sylweddol ar leihau'r nifer o achosion yn Sir Benfro, ac mae wedi bod yn wych i dystio a chlywed sut mae cymunedau yn tynnu at ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd yn ystod yr amser anodd hwn.

Rwy'n gwybod y bydd llawer ohonoch yn teimlo'n rhwystredig o orfod aros gartref, ond mae'n rhaid i mi bwysleisio pa mor hanfodol bwysig ydyw ein bod yn parhau i ddilyn argymhellion y llywodraeth er mwyn lleihau niferoedd y marwolaethau a gwarchod y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Fel eich landlord, rydym yn ymrwymo i'ch cadw'n saff ac yn ddiogel yn eich cartrefi. Rydym yma i'ch cefnogi i geisio datrysiadau os ydych yn gweld eich bod yn cael trafferth i dalu eich rhent, ac fe wnawn bopeth y gallwn i gefnogi eich lles.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld y newyddlen yma'n ddefnyddiol fel diweddariad ar sut mae'r gwasanaethau tai wedi gorfod newid o ganlyniad i'r Coronofeirws, a pha gefnogaeth sydd ar gael i chi ar yr adeg yma, a sut y gallwch gysylltu â ni.

Rydym i gyd yn hyn gyda'n gilydd, a bydd parhau i fod yn ystyriol o'n cymdogion o gymorth i ni ddod drwy hyn. Arhoswch yn saff os gwelwch yn dda.

Tudalen Facebook y Gwasanaethau Tai


Mae ffordd newydd y gallwch gael y newyddion tai diweddaraf – trwy ddilyn tudalen Facebook newydd sbon Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Penfro.

Nod y dudalen yw darparu gwybodaeth i denantiaid cyfredol ac i ddarpar denantiaid am y newyddion diweddaraf, digwyddiadau cymunedol, datblygiadau newydd a chyfleoedd hyfforddi. Byddwn yn rhannu llawer o gynnwys cadarnhaol i godi eich calonau ac yn darparu nifer o gyfleoedd i'n dilynwyr ennill talebau mewn cystadlaethau rheolaidd.

Yn bwysicaf oll, dyma eich tudalen chi, ac rydym ni eisiau i chi ei siapio, felly gofynnwn i chi rannu eich syniadau gyda ni o ran yr hyn yr hoffech chi ei weld yn cael sylw.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i longyfarch enillydd ein cystadleuaeth gyntaf, Llinos Harries, sydd wedi ennill taleb Tesco gwerth £20 am ei llun enfys ardderchog. Da iawn Llinos!

Cofiwch ddilyn, lleisio barn, hoffi a rhannu eich tudalen!



PCCHousing

Cadw mewn cysylltiad â ni

Tîm Rheoli Tenatiaeth - tenman@pembrokeshire.gov.uk or 01437 764551

Tîm Cyngor ar Dai - housingadvice@pembrokeshire.gov.uk or 01437 764551

Tîm Dewis a Dosrannu Cartrefi - haalloc@pembrokeshire.gov.uk or 01437 764551

Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Tai - HousingCLO@pembrokeshire.gov.uk or 01437 776556

Cofiwch ei bod hi'n bosibl i chi gysylltu â'r Gwasanaethau Tai trwy ein tudalen Facebook newydd:
www.facebook.com/PCCHousing

Diweddariad y Cartrefi Dewisedig

ChoiceHomes@Pembrokeshire
CartrefiDewisedig@SirBenfro

Mewn ymateb i'r ymholiadau rydym ni'n eu derbyn o ran pryd fydd hysbyseb Cartrefi Dewisedig yn weithredol unwaith eto, nid ydym yn rhagweld y bydd hynny'n digwydd tan i'r cyfnod cyfyngiadau symud ddod i ben.

Mae hi dal yn bosibl i gwsmeriaid gyflwyno ceisiadau i ymuno â chynllun Tai Cartrefi Dewisedig Sir Benfro, fodd bynnag, efallai y bydd oedi wrth brosesu'ch cais wrth i ni flaenoriaethu meysydd gwasanaeth eraill.

Os hoffech chi drafod eich cais, gallwch anfon neges e-bost at **haalloc@pembrokeshire.gov.uk** neu ffonio **01437 764551**.

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth i'w hychwanegu at eich cais, anfonwch neges e-bost neu gopi wedi'i sganio at **haalloc@pembrokeshire.gov.uk**. Gofynnwn i chi beidio ag anfon unrhyw beth atom trwy'r post.

Diweddariad y Tîm Cyngor ar Dai

Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth, mae'r Tîm Cyngor ar Dai yn gweithio gartref ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae staff ar gael i ddarparu cyngor a chymorth dros y ffôn i'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu gwneud yn ddigartref yn y dyfodol agos.

Os ydych chi'n ddigartref neu'n debygol o gael eich gwneud yn ddigartref yn y dyfodol agos, cysylltwch â'r tîm ar ddyletswydd trwy anfon neges e-bost at **housingadvice@pembrokeshire.gov.uk** neu ffonio **01437 764551** a gofyn i siarad â'r Tîm Cyngor ar Dai.

Mae deddfwriaeth frys wedi cael ei chyflwyno sy'n atal landlordiaid cymdeithasol a phreifat rhag dechrau gweithrediadau eiddo cyfreithiol i droi tenantiaid allan am dri mis, o ddechrau'r cyfnod cyfyngiadau symud.

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael dydd Llun - ddydd Gwener, 9am - 5pm





Diweddariad ar Dai Gwarchod

Mae gweithdrefnau yn parhau i fod ar waith mewn cyfadeiladau tai gwarchod i ddiogelu'r tenantiaid rhag Covid-19. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dim ymwelwyr i fynd i mewn i'ch eiddo (ac eithrio ar gyfer anghenion gofal)
- Ymwelwyr i ddod i adael bwyd a meddyginiaeth hanfodol yn unig, gan sicrhau eu bod yn cadw 2m ar wahân pan fyddant yn cysylltu
- Bydd y lolfeydd cymunedol yn parhau ynghau hyd nes y clywir yn wahanol.
- Mae'r wardeiniaid yn gwneud galwadau ffôn lles ac yn ymweld â'r rheiny sydd heb ffonau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, galwch y warden gan ei fod yn awyddus i'ch helpu mewn unrhyw ffordd bosibl neu eich atgyfeirio at gymorth arall sydd ar gael.

Diweddariad y Tîm Rheoli Tenantiaid

Mae'r Tîm Rheoli Tenantiaid yn gweithio o gartref yn bennaf; fodd bynnag, mae rhai o'r staff ar hyd y lle ar yr ystadau yn cynnal archwiliadau diogelwch a lles hanfodol.

Yn ystod y cyfnod o wahardd pob symudiad, efallai y byddwch yn cael galwad ffôn i wirio eich bod yn iawn ac yn ddiogel, ac i weld a oes arnoch angen unrhyw gymorth yn ystod Covid-19. Nodwch y bydd y rhif yn ymddangos fel 'unknown', ond bydd yr aelod staff yn ei gyflwyno ei hun ac yn nodi'r rheswm am yr alwad. Os ydych yn anghyfforddus neu'n meddwl y gallai'r alwad fod yn sgam, gallwch ddod â'r alwad i ben, ffonio rhif y Cyngor, a gofyn am gael siarad â'r aelod staff er mwyn sicrhau ei fod yn ddilys.

Os bydd angen i chi siarad â'r tîm Tai, ffoniwch **01437 764551** neu anfonwch neges e-bost i **tenman@pembrokeshire.gov.uk**.

Diweddariad y Tim Cyswllt Cwsmeriaid

Oherwydd y gwaharddiad ar ddigwyddiadau cymunedol yn ystod Covid-19, aeth y Tîm Cyswllt Cwsmeriaid ar gyfer Tai ati'n gyflym i ddod o hyd i ffyrdd eraill o ymgysylltu â thenantiaid. Rydym wedi sefydlu tudalen Tai ar Facebook i roi gwybodaeth i'n tenantiaid a'n darpar denantiaid, ac i gadw mewn cysylltiad â phawb. Os hoffech gael y newyddion diweddaraf am dai a chynnal a chadw, ewch ati i'n hoffi! **PCCHousing**.

Rydym yn awyddus i glywed gan ein tenantiaid ynglŷn â'r hyn y byddech yn hoffi ei weld yr Adran Tai yn gwneud rhagor ohono, yn enwedig yn ystod Covid-19. Pa wybodaeth yr hoffech ei gweld? Cysylltwch â ni trwy Facebook, anfonwch neges e-bost i **housingCLO@pembrokeshiregov.uk** neu ffoniwch **01437 776556**.

Cynnal a Chadw Tai

Mae ein timau Cynnal a Chadw yn gweithio'n galed i ddod â gwasanaethau i'ch cartref. Tra bod gwaith Cynnal a Chadw nad yw'n hanfodol wedi stopio dros dro yn ystod y cyfyngiadau symud, rydym wedi parhau i gynnal gwaith atgyweirio brys mewn cartrefi. Ar gyfartaledd, rydym wedi cwblhau 20 o atgyweiriadau bob dydd, fel problemau o ran toeau, boeleri yn torri a namau trydanol.

Gyda gwaith cynllunio gofalus a gwaith tîm (o bellter!), mae ein staff wedi bod yn paratoi cartrefi gwag yn barod i'w rhentu i denantiaid newydd, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

a phobl ddigartref a rhai sy'n agored i niwed yn ystod yr adeg hon o angen mawr. Rydym hefyd yn ymweld â'n safleoedd adeiladu er mwyn eu cadw'n ddiogel. Mae ein contractwyr cyfarpar gwresogi wrthi'n gwasanaethu ac yn atgyweirio eich boeleri, a gwnaethant wasanaethu 430 ohonynt ym mis Ebrill yn unig! Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau eich bod yn ddiogel, ac mae hefyd yn ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor.

Diolch i'r holl denantiaid sydd wedi deall yr angen i barhau â'r gwaith pwysig hwn. Os ydych yn pryderu am eich gwiriad gwasanaethu gwresogydd eich hun, ffoniwch y rhif a nodir ar y llythyr neu ganolfan gyswllt ein Cyngor i gael rhagor o wybodaeth.

Mae pob aelod o staff a chontractwyr y Cyngor yn dilyn rheolau llym wrth ymweld â'ch cartref er mwyn sicrhau bod y staff, yn ogystal â chi a'ch teulu, yn ddiogel.

Cofiwch, os oes angen i chi roi gwybod am atgyweiriad brys, gallwch wneud hynny yn y ffordd arferol o hyd – ffoniwch ganolfan gyswllt y Cyngor ar **01437 764551**.

Diwrnod Biniau



Y newyddion da yw na wnaeth eich casgliadau gwastraff ar ymyl y palmant newid, er gwaethaf wythnosau o gyfyngiadau symud. Caiff bagiau llwyd eu casglu bob 3 wythnos, a chaiff gwastraff bwyd, bagiau glas, bagiau coch a bocsys papur eu casglu'n wythnosol.

Cofiwch:

• Cadwch eich pellter – mae ein staff casglu yn weithwyr hanfodol allweddol ac mae angen i ni eu cadw yn ddiogel! Dangoswch eich cefnogaeth mewn ffyrdd eraill – mae rhai o'n tenantiaid wedi bod yn gadael negeseuon diolch yn eu ffenestri!

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich gwastraff ac ailgylchu, neu os yw'r ffaith bod y canolfannau gwastraff ac ailgylchu wedi cau dros dro yn achosi problemau i chi, gallwch ffonio canolfan gyswllt y Cyngor, neu e-bostio **wasteandrecycling@pembrokeshire.gov.uk**.

Free School Meals

Mae'r Cyngor bellach yn talu am Brydau Ysgol am Ddim i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol! Er bod 1410 o daliadau wedi cael eu gwneud hyd yn hyn, mae'r Cyngor yn dal i aros am fanylion banc teuluoedd tua 750 o blant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Os nad ydych wedi cael llythyr ynglŷn â hyn, neu os oes angen un arall arnoch, e-bostiwch **fsmpayments@pembrokeshire.gov.uk**, neu ffoniwch **01437 775250** cyn gynted â phosibl.

A ydych chi'n un o denantiaid y Cyngor sy'n ei chael yn anodd talu'ch rhent neu'n wynebu caledi o ganlyniad i'r Coronafeirws?

Mae Cyngor Sir Penfro yn sylweddoli bod hwn yn gyfnod heriol ac y bydd llawer o bobl yn wynebu caledi o ganlyniad i'r coronafeirws. Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, ni fyddwn yn cymryd camau yn erbyn tenantiaid ar hyn o bryd, ond rydym am i chi wybod ein bod ni yma i'ch helpu a'ch cefnogi, os bydd angen.

Os ydych chi'n ei chael yn anodd talu'ch rhent neu fod angen cymorth arnoch â phroblemau dyled, cysylltwch â ni ar **01437 764551** a gofynnwch am gael siarad â'ch Tîm Tai ardal. Gallant roi cyngor i chi am eich tenantiaeth, a'ch rhoi mewn cysylltiad â chynghorydd sy'n gallu gwirio a oes gennych chi hawl i gael cymorth ariannol. Hefyd, gall y tîm eich cysylltu â gwasanaethau hanfodol yn eich cymuned trwy ein Hyb Cymunedol. Nid ydym ni eisiau i chi boeni am hyn – **rydym ni yma i'ch helpu.**

Rhif defnyddiol arall:

CAB Hwlffordd - **01337 806070**

DWP - **0800 7317898**

Ewch i '**Fy Nghyfrif**' i dalu ar-lein

Diogelwch rhag tân yn y cartref

Oherwydd y pandemig, yn ogystal â phobl â chyflyrau anadlol megis asthma, rydym yn cynghori pobl i **BEIDIO** â llosgi yn ystod y pandemig. Gall tân fod yn anrhagweladwy iawn a gall fynd allan o reolaeth wrth i chi losgi gwastraff gardd neu sbwriel. Gall llosgi'r eitemau hyn hefyd greu aer gwenwynig sy'n beryglus i'w anadlu i mewn.

Mae yna ffyrdd mwy ecogyfeillgar o waredu gwastraff gardd neu sbwriel sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd, er enghraifft defnyddio cyfleusterau ailgylchu Cyngor Sir Penfro. Cadwch olwg ar ein tudalen Facebook am yr wybodaeth ddiweddaraf o ran pryd fydd y canolfannau ailgylchu yn ailagor.

Cadwch eich teulu a'r gymuned yn ddiogel, a pheidiwch â llosgi. I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir Penfro, **01437 764551**.

Materion yn y gymdogaeth

Mae nifer y cwynion am sŵn wedi cynyddu yn ystod yr achosion o Covid-19. Cofiwch fod mwy o bobl nag arfer gartref yn ystod y cyfnod o wahardd pob symudiad, felly bydd yna gynnydd yn lefel y sŵn. Gofynnir i breswylwyr feddwl yn ofalus am lefelau sŵn cerddoriaeth a DIY, yn enwedig mewn gerddi, a fydd yn effeithio ar y rheiny sy'n byw'n agos.

Dywedodd y Cyng. Cris Tomos, yr Aelod o'r Cabinet dros yr Amgylchedd, Diogelu'r Cyhoedd a'r Gymraeg: "Rydym yn gweld cynnydd yn nifer y cwynion am sŵn tra bo llawer mwy ohonom gartref nag arfer, ond cofiwch ein bod i gyd yn rhan o hyn gyda'n gilydd, a gall ychydig o ystyriaeth helpu'r cyfnod hwn i basio heb straen na gwrthdaro ychwanegol." Os oes gennych pryderon ynglyn a phobl yn torri'r rheolau Pellhau Cymdeithasol neu am Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol, galwch yr heddlu ar 101.

Sicrhewch eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf

Sicrhewch eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i ni gychwyn ar gam nesaf y cyfyngiadau symud, drwy ein dilyn ar-lein, ar Pure West Radio a Radio Pembrokeshire, drwy gyfryngau lleol fel y Western Telegraph, a thrwy ein safleoedd ein hunain. Cofiwch ein hoffi a'n dilyn ar:

PCCHousing

PembrokeshireCountyCouncil

www.sir-benfro.gov.uk/cyngor-a-y-coronafeirws

www.gov.uk/coronavirus

Yn olaf, sicrhewch eich bod yn cael eich newyddion oddi wrth ffynhonnell y gallwch ymddiried ynddi.

Cael Help...

Cymorth a chyngor i'r rheini sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ystod argyfwng y Coronafeirws neu i'r rheini sy'n nabod rhywun sy'n dioddef.

Live Fear Free Helpline
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800

Sut i gadw'n saff:

- Cadwch mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, pan fo modd i chi wneud hynny – mae nifer o apiau defnyddiol y gallwch eu defnyddio i gadw mewn cysylltiad gweledol: Skype, FaceTime, galwadau fideo, ond cofiwch wneud hyn mewn ffordd ddiogel. Efallai bod pobl eraill yn gwrando.
- Meddyliwch am sut i gael cymorth mewn ffordd ddiogel, ac os oes modd i chi wneud hynny, cysylltwch â'ch gwasanaeth trais domestig lleol, neu cysylltwch â'r llinell gymorth i sefydlu cynllun i gadw'n ddiogel gartref neu gynllun i adael y cartref yn ddiogel
- Sefydlwch gyfrinair neu arwydd i'w ddefnyddio mewn argyfwng i adael i'r rhai sy'n agos atoch wybod eich bod angen help ac i ffonio'r heddlu
- Pan fo hyn yn bosibl, cadwch fag o eitemau hanfodol yn ddiogel wrth law, ystyriwch opsiynau ar gyfer ei gadw'n saff; a'i adael gyda chymydog yr ydych yn ymddiried ynddo
- Defnyddiwch siopau lleol pan na fo slotiau siopa ar-lein ar gael, a siaradwch â rhywun.
- **Galwadau distaw i'r heddlu – ffoniwch 999 – yna gwasgwch 55 os nad oes modd i chi siarad.**

Pembrokeshire Community HUB HWB Cymunedol Sir Benfro

Siop un alwad ar gyfer eich holl anghenion cymorth yn ystod COVID 19

Ydych chi'n hunan-ynysu?
Oes arnoch chi angen ychydig o gymorth?
Ydych chi eisiau gwybod beth sydd ar gael yn eich ardal?

Os bydd arnoch angen cymorth gyda phethau hanfodol fel siopa, casglu moddion neu gyflenwadau eraill, neu ddim ond angen llais cyfeillgar ar ben arall y ffon - mae cymorth allan yna.

Ffoniwch ni ar 01437 776301

neu anfonwch e-bost atom ni covid19cymunedol@sir-benfro.gov.uk

#connect2kindnesspembs

PAVS
LLESIANT DELTA WELLBEING
GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Fy Nghyfrif

Arbedwch amser a'i wneud ar-lein gyda "**Fy Nghyfrif**" - Eich Cyfrif Cyngor Ar-lein